Her Majesty's Inspectorate of Constabulary and Fire & Rescue Services

# Pa mor gyfreithlon mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

## Trosolwg

Dyfernir bod Heddlu De Cymru yn dda o ran pa mor gyfreithlon ydyw yn cadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Mae ein dyfarniad cyffredinol eleni yr un fath â'r llynedd ar gyfer y meysydd cyfreithlondeb y gwnaethom eu hastudio. Dyfernir bod yr heddlu'n dda yn trin yr holl bobl y mae'n eu gwasanaethu â thegwch a pharch a'i fod yn dda yn trin ei weithlu â thegwch a pharch hefyd. Dyfernir bod angen iddo wella'r graddau y mae'n sicrhau bod ei weithlu'n ymddwyn yn foesegol ac yn gyfreithlon.

Dyfernir bod Heddlu De Cymru yn dda ar y cyfan o ran pa mor gyfreithlon ydyw yn cadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Mae HMICFRS yn falch o weld bod yr heddlu wedi gweithredu ar feysydd gwella blaenorol a bod ei arweinwyr yn dangos gwir ymrwymiad i sicrhau bod ei weithlu yn deall pwysigrwydd trin y bobl y mae'n eu gwasanaethu â thegwch a pharch. Mae gan yr heddlu amrywiaeth o swyddogaethau monitro a chraffu, er y byddai rhai o'r rhain yn elwa ar ragor o annibyniaeth.

Mae'r heddlu'n parhau i ddangos bod ganddo ddiwylliant moesegol da, ac mae swyddogion a staff ar draws y sefydliad yn gweithredu dull moesegol wrth wneud penderfyniadau. Mae'n darparu sianeli rhwydd lle y gall y cyhoedd gwyno am yr heddlu, ond mae angen gwella'r graddau y caiff achwynwyr eu diweddaru am gynnydd eu cwyn. Mae Heddlu De Cymru yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar ei weithlu i nodi ac ymchwilio i achosion o wahaniaethu; fodd bynnag, mae angen i'r heddlu sicrhau ei fod yn atgyfeirio achosion at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) lle y bo'n briodol, a sicrhau bod pob ymchwiliad yn cael ei wneud at lefel foddhaus, gan gynnwys darparu gwasanaeth derbyniol i achwynwyr.

Mae arweinwyr yr heddlu yn llwyr ymrwymedig i lesiant y gweithlu; mae'r heddlu yn adeiladu ar y seiliau gwych a nodwyd gennym y llynedd, gan gyflwyno mentrau newydd sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, a rhoi cymorth i'r rhai hynny sydd ei angen. Serch hynny, mae angen iddo wneud mwy i annog cynrychiolaeth o bobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) ar draws y gweithlu, a mwy i sicrhau bod y broses arfarnu newydd yn cael ei deall a'i gwerthfawrogi gan bawb. Mae'r heddlu wedi gweithio'n galed i ddatblygu dull teg tuag at ddewis rolau arweinyddiaeth swyddogion a staff ar bob lefel, a chaiff ei ystyried yn agored ac yn deg gan y gweithlu.